OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2012 Rhif 2978 (Cy.304)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU
# HALOGI BWYD

## Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu) 2012

*Gwnaed - - - - 28 Tachwedd 2012*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 11 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) ac adrannau 1(1), (2) a (10) a 24(1) a (3) o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985(**2**), a hwythau bellach heb fod o'r farn bod, neu y gall fod, amgylchiadau sy'n debygol o greu perygl i iechyd pobl os ydynt yn bwyta bwyd fel y'i pennir yng Ngorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) 1991(**3**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu) 2012. Mae'n gymwys o ran Cymru a daw i rym drannoeth y diwrnod y caiff ei wneud.

### Dirymu

**2.** Mae'r Gorchmynion a bennir yn yr Atodlen wedi eu dirymu.

(**1**) 1981 p.22. Rhoddwyd y pŵer i wneud gorchmynion o dan adran 11 yn wreiddiol i "the Minister" fel y'i diffiniwyd yn adran 86(1) o Ddeddf 1981. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hynny wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(**2**) 1985 p.48. Diwygiwyd adran 1(1) a (2) gan adran 51(2)(a) a (b) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 (p.16). Mae adran 1(2) yn diffinio "designating authority". Mae swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1985 i "the Secretary of State" yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru yn gydredol o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hynny wedi eu breinio bellach yng Ngweinidogion Cymru.

(**3**) O.S. 1991/5, a ddiwygiwyd gan y Gorchmynion eraill sydd i'w dirymu ac a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Tachwedd 2012

## YR ATODLEN

Erthygl 2

### GORCHMYNION SYDD WEDI EU DIRYMU

| *Gorchmynion* | *Cyfeirnodau* |
|---|---|
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) 1991 | O.S. 1991/5 |
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu'n Rhannol) 1991 | O.S. 1991/2780 |
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu'n Rhannol) 1994 | O.S. 1994/63 |
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu'n Rhannol)1995 | O.S. 1995/46 |
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu'n Rhannol) 1998 | O.S. 1998/72 |
| Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) (Dirymu'n Rhannol) 2011 | O.S. 2011/2759 |
| Gorchymyn Allforio Defaid (Gwahardd) 1991 | O.S. 1991/58 |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

**1.** Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu, o ran Cymru Orchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) 1991 (O.S. 1991/5), Gorchymyn Allforio Defaid (Gwahardd) 1991 (O.S. 1991/58) a gorchmynion perthnasol. Mae Gorchymyn Diogelu Bwyd (Gwaharddiadau Brys) (Ymbelydredd mewn Defaid) (Cymru) 1991 yn cynnwys gwaharddiadau brys sy'n cyfyngu ar amryw o weithgareddau er mwyn rhwystro pobl rhag bwyta bwyd sy'n dod o ddefaid mewn ardaloedd dynodedig penodol ac sydd wedi ei wneud, neu a allai fod wedi ei wneud, yn anaddas at y diben hwnnw oherwydd i sylweddau ymbelydrol ddianc o adweithydd niwclear yn Chernobyl yn yr Ukrain. Mae Gorchymyn Allforio Defaid (Gwahardd) 1991 yn cynnwys cyfyngiadau perthynol ar allforio defaid i'r UE a'r defaid hynny wedi cael eu symud o ardaloedd sy'n ddarostyngedig i'r gwaharddiadau brys hyn. Effaith y Gorchymyn hwn yw dileu'r gwaharddiadau brys o'r ardaloedd sy'n dal yn ddarostyngedig i gyfyngiad a chodi'r cyfyngiadau ar allforio defaid i'r UE a'r defaid hynny wedi cael eu symud o'r ardaloedd hyn.

**2.** Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Gorchymyn hwn gan nad oes ganddo effaith ar gostau busnes.